

General Optical Council

Ymarferion masnachol a diogelwch cleifion

Adolygiad thematig

Crynodeb gweithredol
Hydref 2026



Pam y gwnaethom gynnal yr adolygiad hwn

1. Mae'r adolygiad thematig hwn yn ystyried effaith arferion masnachol ar brofiad y cyhoedd o ofal llygaid diogel ac effeithiol, ac i ba raddau y mae cofrestryddion yn gallu darparu'r gofal hwnnw i bawb. Arferion masnachol yw'r ffyrdd y mae busnes yn cael ei redeg er mwyn parhau'n broffidiol. Maent yn rhan annatod o'r ffordd y darperir gofal llygaid ar y stryd fawr ac yn cynnwys penderfyniadau yn ymwneud â sut mae cynnyrch yn cael eu gwerthu, apwyntiadau'n cael eu rheoli, a gofal yn cael ei ddarparu.

2. Yn y DU mae gofal llygaid sylfaenol sy'n cael ei ariannu gan y GIG a gofal llygaid sy'n cael ei ariannu'n breifat yn cael ei ddarparu'n bennaf gan fusnesau optegol preifat. Mae'r cyfuniad o ofal llygaid clinigol yn cael ei ddarparu gan gontractwyr preifat a gwerthiant adwerthol masnachol yn nodwedd gynhenid o'r sector.

3. Gall hyn ddod â manteision i gleifion, cofrestryddion, comisiynwyr a threthdalwyr. Er enghraifft, gall ysgogi arloesedd, a all yn ei dro ehangu mynediad a gwella ansawdd gofal, yn ogystal â chynnig cyfleoedd gyrfaol newydd i gofrestryddion. Fodd bynnag, gwyddom o'n hymchwil ein hunain a thystiolaeth, yn ogystal â sgysiau gyda rhanddeiliaid, fod pryder ynglŷn â'r graddau y gallai'r arferion hyn amharu ar fynediad y cyhoedd at ofal llygaid, ar ddarparu gofal llygaid diogel ac effeithiol i gleifion, ac ar lesiant cofrestryddion..

4. Cynhelir yr adolygiad hwn mewn cyfnod pan mae diddordeb cynyddol mewn marchnadoedd gwasanaethau proffesiynol a gofal iechyd. Roedd adroddiad yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (PSA), '[Gofal mwy diogel i bawb](#)', yn nodi'n glir y dylai rheoleiddwyr ymyrryd pan fydd elw'n cael ei roi o flaen lles pennaf y claf ac ystyried chwarae rôl fwy ymyriadol . Mae cryfhau hawliau defnyddwyr wedi bod yn un o brif flaenoriaethau'r llywodraeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys drwy newidiadau deddfwriaethol. Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) wedi bod yn rhoi pwyslais cryf ar wasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal ag adolygiad arwyddocaol o ofal iechyd preifat yn 2014, mae wedi cwblhau ymchwiliad marchnad i wasanaethau milfeddygol yn ddiweddar, ac mae wedi dechrau astudiaeth marchnad o wasanaethau [deintyddol preifat](#).

Beth wnaethon ni ei wneud

5. Mae'r adolygiad yn seiliedig ar y pum pwnc a ganlyn:

- targedau gwerthu a chymhellion;
- arferion trefnu apwyntiadau;
- amseroedd profion golwg;
- tryloywder ynglŷn â phrisiau a chymhwyster am gymorth ariannol; dan y GIG
- profion golwg i blant iau.

6. Fe wnaethom ystyried effeithiau ar ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion a rhwystrau sy'n atal mynediad at ofal, yn enwedig ymhlith pobl sydd mewn amgylchiadau bregus.

7. Gan adlewyrchu ein hamcanion statudol, mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar ddiogelu'r cyhoedd. Mae diogelwch cleifion yn elfen greiddiol o ddiogelu'r cyhoedd, ond rydym wedi ystyried gwahanol fathau o niwed yn unol â chanllawiau'r [PSA](#) ar reoleiddio cyffyrddiad priodol a'n dyletswydd i sicrhau cydraddoldeb i'r sector cyhoeddus.

8. Fe wnaethom gasglu tystiolaeth o nifer o wahanol ffynonellau, gan gynnwys ymchwil cynradd newydd yn cynnwys tonnau newydd o'n harolygon blynyddol o ganfyddiadau'r cyhoedd a chofrestryddion, ymchwil ansoddol wedi'i gomisiynu, dadansoddiad o adolygiadau cwsmeriaid Trustpilot, adolygiad o wybodaeth am brisiau profion golwg a chymhwyster ar gyfer cymorth ariannol dan y GIG ar wefannau busnesau optegol, a dadansoddiad o ddata hawliadau profion golwg ar gyfer plant 0-5 oed.



Beth wnaethon ni ei ganfod

- 9.** Ni chanfu'r adolygiad hwn unrhyw dystiolaeth uniongyrchol o niwed i gleifion wedi'i achosi gan arferion masnachol. Er hyn, mae'n nodi effeithiau hirdymor posibl ar gleifion sy'n llai gweledol, yn ogystal ag effeithiau ar gofrestryddion.
- 10.** Fe wnaethom ddatgelu paradocs o gleifion bodlon ond proffesiwn sydd dan straen. Mae arolygon yn dangos bod lefelau hyder y cyhoedd a bodlonrwydd cleifion â gwasanaethau gofal llygaid yn uchel, ond bod anfodlonrwydd o fewn y proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio a phrofiad o amodau gwaith negyddol mewn busnesau optegol ill dau'n uchel..
- 11.** O ran cleifion, gallai gwerthu cynnyrch a gwasanaethau nad oes arnynt eu hangen o bosibl, neu nad ydynt o reidrwydd er pennaf les iddynt, apwyntiadau wedi'u brysio a gwerthu dan bwysau, i gyd fod yn ffactorau sy'n atal mynediad at wasanaethau gofal llygaid, ag effaith bosibl ar ganlyniadau iechyd llygaid mwy hirdymor.
- 12.** Mae cofrestryddion yn bryderus ynglŷn ag effeithiau arferion masnachol ar eu gallu i ddarparu gofal diogel yn ogystal â phwysau sy'n effeithio ar lesiant, megis disgwyliad iddynt weld niferoedd uchel o gleifion, a/neu gyrraedd targedau a osodwyd gan y cyflogwr. Ymddengys bod myfyrwyr a gweithwyr proffesiynol gyrfa gynnar yn agored iawn i effeithiau negyddol rhai arferion masnachol mewn busnesau optegol.
- 13.** Mynegir safbwyntiau gwrthgyferbyniol gan gofrestryddion unigol, cyflogwyr a chofrestryddion busnes ynglŷn â materion gweithredol megis arferion trefnu apwyntiadau, defnyddio targedau gwerthu a chymhellion, ac amseroedd profion golwg. Er nad yw cyflogwyr at ei gilydd yn credu bod problem systemig, mae pryder cyffredinol ymhlith cofrestryddion. Fan lleiaf, mae'r datgysylltiad hwn yn awgrymu nad yw'r berthynas rhwng cofrestryddion, cyflogwyr a busnesau optegol yn gweithio cystal ag y dylai.
- 14.** Mae'r adolygiad yn tynnu sylw at bwysigrwydd meithrin y diwylliant iawn a chreu amgylchedd sy'n cefnogi dulliau annibynnol o wneud penderfyniadau clinigol a rheoli risg, yn sicrhau cysondeb rhwng cyrraedd targedau a thalu cymhellion ag ansawdd a gwasanaeth i gwsmeriaid, ac yn sicrhau lles pennaf

cleifion. Bydd cryfhau annibyniaeth glinigol cofrestryddion a sicrhau diwylliant mwy cydweithredol mewn ymarfer optegol, sy'n rhoi mwy o lais iddyn nhw yn y broses o gynllunio gweithrediadau busnes, megis arferion trefnu apwyntiadau, defnyddio targedau gwerthu a chymhellion, yn bwysig er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

15. Mae arnom eisiau i bob busnes sy'n darparu gweithgareddau cyfyngedig gael ei reoleiddio gennym ni, ac rydym yn gweithio er mwyn cryfhau goruchwyliaeth o fusnesau drwy raglen ddiwygio deddfwriaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Byddai hyn yn cau bwlch mewn diogelu rheoleiddiol ac yn sicrhau tegwch i fusnesau.

16. Mae amodau economaidd ar raddfa eang yn heriol ar draws y DU, ac adlewyrchir hyn mewn cysylltiad â hyder defnyddwyr, yn ogystal â phwysau ar gyllidebau'r gwasanaeth iechyd. Codwyd annigonolrwydd ffioedd Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol (GOS) droeon mewn llawer o'r materion a ystyriwyd gennym, ac mae'n ymddangos eu bod yn dylanwadu ar y ffordd y mae gofal llygaid yn cael ei ddarparu. Ond er bod ffioedd GOS yn ffactor sy'n cyfrannu, nid ydynt yn egluro holl effeithiau negyddol pwysau masnachol y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad hwn.

17. Mae'r adolygiad yn cyfeirio at yr angen am amgylchedd rheoleiddiol a phroffesiynol lle mae llwyddiant masnachol, diogelwch cleifion a lles y gweithlu yn ffactorau sydd gyda'i gilydd yn atgyfnerthu, ac nid yn flaenoriaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd. Mae themâu cyson ar draws y pum maes dan sylw yn pwysleisio'r angen i gryfhau safonau a chanllawiau, paratoi myfyrwyr yn well ar gyfer realiti masnachol y sector, cefnogi annibyniaeth broffesiynol, meithrin y diwylliannau iawn, gwella tryloywder, a chreu amgylchedd mwy cydweithredol mewn gweithleoedd, lle gellir codi pryderon a mynd i'r afael â nhw'n effeithiol.

18. Mae cydweithio â phartneriaid yn y sector er mwyn atal niwed yn un o brif themâu strategaeth gorfforaethol 2025-30. Yn ogystal ag amlinellu rhaglen weithgaredd ar gyfer y Cyngor Optegol Cyffredinol, mae adran argymhellion yr adolygiad hwn yn nodi lle gallai rhanddeiliaid, gan gynnwys cyrff proffesiynol, cyflogwyr ac eraill, helpu.

Targedau gwerthu a chymhellion

Mae targedau gwerthu a chymhellion yn arf busnes cyfreithlon ond dylid eu cynllunio er mwyn hybu diwylliant sy'n gydnaws â lles pennaf cleifion.

Gall pwysau i gydymffurfio â thargedau gwerthu a chymhellion fod yn waeth i'r rhai sy'n gweithio mewn practis sy'n rhan o gadwyn fwy ac i gofrestryddion sydd â llai o brofiad gyrfaol.

Gall pwysau i gydymffurfio â thargedau gwerthu a chymhellion effeithio ar iechyd a llesiant cofrestryddion ac achosi risgiau yn ymwneud â chapasiti gweithlu.

Mae safbwyntiau gwahanol ynglŷn â chymhellion i atgyfeirio am lawdriniaethau cataract a phlygiant a'u heffeithiau ar ddewis y claf, ansawdd gofal a hyder y cyhoedd.

19. Defnyddir targedau gwerthu a chymhellion yn gyffredin mewn amgylcheddau manwerthu fel arf busnes cyfreithlon i hybu perfformiad a chymell staff. Er hyn, mae problemau'n codi pan fydd gormod o bwyslais ar fetrigau masnachol neu os nad yw'r rhain yn gydnaws â lles pennaf cleifion.

20. Gall targedau gwerthu a chymhellion ymddangos i gleifion fel gwerthu dan bwysau, neu gallant gael dylanwad negyddol ar ryngweithiadau cleifion mewn ffyrdd mwy cynnil sy'n tanseilio'r berthynas o ymddiriedaeth rhwng y clinigydd a'r claf ac a allai o bosibl wneud drwg i ddelwedd y sector. Mae data ein harolygon yn dangos ei bod yn ymddangos bod hyn yn effeithio ar rai grwpiau o gleifion yn fwy na'i gilydd, gan gynnwys grwpiau sydd â ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed.

21. all pwysau i brynu achosi i bobl beidio â manteisio ar ofal llygaid, a gallai hynny effeithio yn y tymor hir ar iechyd llygaid, a thriniaethau sy'n atal colli golwg. Er nad yw'r pryderon hyn yn achosi risgiau diogelwch uniongyrchol, gallant gyfrannu tuag at ganlyniadau iechyd llygaid hirdymor gwaeth. Canfu [Healthwatch](#) fod pobl a oedd yn dweud eu bod wedi cael eu hannog i brynu cynnyrch neu wasanaethau ychwanegol y telir amdanynt, ddwywaith mor debygol o fod wedi osgoi chwilio am ofal llygaid

22. Mae rhai cofrestryddion yn dweud eu bod yn teimlo dan bwysau i werthu mathau penodol o sbectols neu lensys cyffwrdd a fydd yn dod â mwy o arian i'r busnes, yn ogystal â theimlo pwysau i werthu cynnyrch neu wasanaeth roedden nhw o'r farn nad oedd ar y claf eu hangen. Mae'r rhai sy'n teimlo'r pwysau hwn hefyd yn teimlo eu bod yn methu â darparu gofal diogel i gleifion.

23. Gall pwysau i gydymffurfio â thargedau gwerthu a chymhellion effeithio ar iechyd a lles cofrestryddion ac achosi risgiau i gapasiti'r gweithlu. Mae data ein harolygon yn dangos cydberthyniadau â lefelau uwch o straen llwyth gwaith, oriau hir, absenoldeb yn gysylltiedig â straen, llai o fodlonrwydd mewn swydd a bwriadau i adael y proffesiwn.



24. Mae pryderon ers tro byd ym maes gofal iechyd, sy'n cael eu hadlewyrchu mewn gwaith gan y CMA ac adolygiadau annibynnol, ynglŷn â sefyllfaoedd lle gallai buddiannau masnachol busnesau arwain clinigwyr i wneud argymhellion neu atgyfeiriadau nad ydynt yn gydnaws â lles pennaf cleifion neu sy'n cyfyngu ar ddewis cleifion. Yn yr adolygiad hwn, derbyniasom dystiolaeth wrthgyferbyniol ynglŷn â natur, graddau ac effaith atgyfeiriadau amhriodol sy'n seiliedig ar gymhellion ar gyfer llawdriniaethau cataract a phlygiant.

Ystadegau allweddol

Dywedodd 20% o'r ymatebwyr a brynodd sbectol neu lensys cyswllt eu bod wedi teimlo pwysau i brynu brandiau neu fathau penodol.

Roedd 14% o'r rhai a ddywedodd eu bod yn teimlo'n anghyfforddus ynglŷn ag ymweld ag optegydd yn cyfeirio at bwysau i brynu sbectol neu lensys cyffwrdd.

Roedd 17% o'r bobl a ddywedodd fod staff wedi eu hannog i fanteisio ar wasanaethau ychwanegol y telid amdanynt yn dweud eu bod wedi osgoi mynd i gael gofal llygaid yn y ddwy flynedd ddiwethaf, o'i gymharu ag 8% ar gyfer y rhai nad oedd wedi profi hyn.

Roedd dros 30% o'r cofrestryddion yn teimlo dan bwysau i werthu mathau penodol o sbectol neu lensys cyffwrdd a fydd yn dod â mwy o arian i'r busnes neu i gydymffurfio â thargedau masnachol ar draul gofal cleifion.

Roedd 24% yn teimlo dan bwysau i werthu cynnyrch neu ddarparu gwasanaeth y credent nad oedd ar y claf ei angen.

Arferion trefnu apwyntiadau

Gall gorfwcio apwyntiadau helpu i sicrhau mynediad at ofal llygaid i gleifion, ond mae angen ei reoli'n dda er mwyn sicrhau llwythi gwaith cynaliadwy ac amseroedd digonol ar gyfer profion.

Mae'n ymddangos bod rhai arferion trefnu apwyntiadau yn cael effaith niweidiol ar lesiant cofrestryddion.

Mae angen mwy o gefnogaeth i fyfyrwyr a gweithwyr proffesiynol gyrfa gynnar.

25. Gall dulliau effeithiol o raglennu apwyntiadau helpu i sicrhau mynediad at ofal a darparu triniaeth ddiogel ac effeithiol. Fodd bynnag, mae angen cael cydbwysedd rhwng gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o gapasiti clinigol a chreu sefyllfa lle mae rhai cleifion a chofrestryddion yn teimlo eu bod yn cael eu rhuthro neu eu rhoi dan bwysau.

26. Un o gryfderau'r sector yw ei bod yn hawdd at ei gilydd i gleifion archebu prawf golwg ymlaen llaw heb orfod aros yn hir. Fodd bynnag, os yw cleifion yn cael profiadau gwael, gallai hyn arwain at ganlyniadau ehangach o safbwynt ymgysylltu parhaus â gofal llygaid. Os yw cleifion yn teimlo eu bod yn cael eu brysio, neu os nad ydynt yn fodlon â lefel y cyfathrebu neu'r amser mewn apwyntiadau, gallent benderfynu peidio â manteisio ar ofal llygaid arferol yn y dyfodol, a gallai hynny effeithio ar iechyd llygaid yn yr hirdymor.

27. Gallai amseroedd aros hir a mannau aros gorlawn roi pobl sydd ag anghenion ychwanegol dan fwy o anfantais. Roedd ein hymchwil i brofiad personol gyda chleifion mewn amgylchiadau bregus yn amlygu rhwystrau seicolegol a oedd yn atal ymweliadau ag optegwyr, gan gynnwys natur 'agored' yr amgylchedd ffisegol, gorfod eistedd yn ymyl pobl ddiarth mewn ystafelloedd aros, a phryderon ynglŷn ag amser aros hir . Mae oedolion sydd ag anabledd dysgu ddeg gwaith yn fwy tebygol o fod â phroblem llygaid na'r boblogaeth gyffredinol, ac yn achos plant sydd ag anabledd dysgu mae hyn yn codi i 28 gwaith yn fwy tebygol na'r boblogaeth gyffredinol . O ganlyniad, gallai'r amgylchedd hwn gael effaith negyddol anghymesur ar gleifion o'r fath.

28. Mae rhai arferion trefnu apwyntiadau fel pe baent yn effeithio ar ddarparu gofal a llesiant cofrestryddion. Mae lleiafrif arwyddocaol o'r cofrestryddion yn dweud eu bod wedi teimlo pwysau weithiau neu yn aml i weld niferoedd uchel o gleifion, a bod hynny wedi effeithio ar eu gallu i ddarparu gofal diogel. Mae adroddiadau am apwyntiadau'n cael eu rhuthro, lle mae'n bosibl methu pethau, a llai o gyfathrebu â chleifion, yn achosi pryder. Mae tystiolaeth o egwylliau byrrach, neu golli egwylliau, methu â chwblhau tasgau gweinyddol yn ystod oriau gwaith ac anhawster i godi pryderon, yn awgrymu y gall y pwysau yma gael effaith niweidiol ar lesiant hefyd, gan gynnwys cyfrannu tuag at ddiffygiad ac achosi i gofrestryddion fod eisiau gadael y proffesiwn. Mae'r dystiolaeth o'n harolwg yn dangos mai myfyrwyr a gweithwyr proffesiynol gyrfa gynnar sy'n cael yr anhawster mwyaf â phwysau sy'n gysylltiedig ag arferion trefnu apwyntiadau.

29. Nid yw cynrychiolwyr busnesau yn credu bod staff yn cael eu gorweithio, ac mae hyn yn dangos diffyg consensws a allai ddeillio o fethiant i gyfathrebu rhwng cyflogwyr a chofrestryddion sy'n darparu gofal i gleifion. Rhaid i fusnesau sicrhau bod arferion trefnu a rhaglennu apwyntiadau yn cefnogi gofal diogel, â chynlluniau wrth gefn priodol lle mae'r galw'n fwy na'r capasiti, a mecanweithiau effeithiol i alluogi staff i godi pryderon.

Ystadegau allweddol

Roedd 89% o'r cleifion yn fodlon â'r amser roeddent wedi gorfod aros am eu hapwyntiad, a dim ond 3% ddywedodd eu bod yn anfodlon.

Dywedodd 38% o'r cofrestryddion eu bod wedi teimlo dan bwysau i weld nifer uwch o gleifion bob diwrnod 'weithiau' (21%) neu 'yn aml' (17%), a bod hynny wedi effeithio ar eu gallu i ddarparu gofal diogel i gleifion.

Dywedodd 23% o'r cofrestryddion fod rhywun wedi gofyn iddynt orfwcio clinigau 'weithiau' (14%) neu 'yn aml' (10%) (25% yn 2025).



Amseroedd profion golwg

Mae cleifion yn fodlon â'r amser a gymerir yn eu profion golwg, ond mae llawer o gofrestryddion yn dweud bod amseroedd profion golwg yn gallu bod yn annigonol.

Gall amseroedd byr ar gyfer profion golwg gael effaith niweidiol ar lesiant cofrestryddion.

Ni fyddai'n briodol i'r Cyngor Optegol Cyffredinol osod lleiafswm ar gyfer amseroedd profion golwg.

30. Rhaid i bob prawf golwg gynnwys nodweddion sylfaenol, ond gall hyd profion golwg amrywio'n sylweddol gan ddibynnu ar ffactorau sy'n cynnwys prosesau comisiynu'r GIG, faint o'r gwaith sy'n cael ei ddirprwyo, y dechnoleg a ddefnyddir ac anghenion unigol pob claf. Mae amser digonol yn galluogi optometryddion i wneud asesiadau clinigol priodol, trafod opsiynau ar gyfer triniaeth a risgiau, ateb cwestiynau, a chefnogi penderfyniadau deallus. Mae'n helpu cleifion i deimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, gan gyfrannu tuag at brofiad gofal cadarnhaol a chefnogi ymddiriedaeth a hyder yn y proffesiynau

31. Mae ein hymchwil i ganfyddiadau'r cyhoedd yn dangos lefelau cyson uchel o fodlonrwydd ymhlith cleifion â'r amser a ddyrannwyd ar gyfer profion golwg er mwyn ymdrin yn briodol â'u hanghenion, er bod hyn yn is ymhlith rhai grwpiau. Fodd bynnag, mae tua hanner y cofrestryddion yn dweud bod yr amser safonol a ddyrannwyd ar gyfer profion golwg wedi bod yn annigonol i ddarparu gofal diogel i gleifion. Mae hyn yn amrywio gan ddibynnu ar y math o bractis, gyda'r rhai hynny sy'n gweithio mewn practisau sy'n rhan o gadwyn ac mewn rolau locwm yn fwy tebygol o gyfeirio at amser annigonol. Roedd sefydliadau sy'n cynrychioli cleifion yn bryderus iawn y gallai apwyntiadau fod yn rhy fyr i rai cleifion, yn enwedig y rhai sydd ag anabledau dysgu neu dementia, plant, neu'r rhai sydd angen cymorth neu eglurhad ychwanegol. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn cyfeirio llai at ddigwyddiadau uniongyrchol, clir yn ymwneud â diogelwch cleifion, ac yn cyfeirio mwy at faterion yn ymwneud ag ansawdd y cyfathrebu â chleifion ac effeithiau anghymesur ar gleifion sydd angen mwy o amser.

32. Yng nghanfyddiadau'r arolygon, mewn ymchwil ansoddol ac mewn tystiolaeth o addasrwydd i ymarfer, mae cofrestryddion yn dweud bod amseroedd apwyntiadau byr, clinigau gorlawn a rheolaeth gyfyngedig dros ddyddiaduron yn cyfrannu tuag at straen, llai o fodlonrwydd mewn swydd, colli egwylliau a diffygiad. Mae cysylltiad agos rhwng y pryderon hyn ynglŷn â llesiant a diogelwch cleifion. Lle mae cofrestryddion yn teimlo eu bod yn methu â threulio digon o amser gyda chleifion, cymryd egwylliau priodol neu ddefnyddio barn broffesiynol ynglŷn â chapasiti clinig, mae mwy o risg y bydd gofal yn cael ei ruthro, y gallai cofnodion fod yn anghyflawn, ac y gallai pryderon clinigol gael eu methu.



Gallai pwysau parhaus ar gofrestryddion gynyddu'r tebygolrwydd o wneud camgymeriadau, gwanhau hyder proffesiynol a lleihau parodrwydd i godi pryderon.

33. Mae canfyddiadau gan gofrestryddion busnes yn awgrymu darlun gwahanol. Mae rhai'n dweud bod amseroedd apwyntiadau hirach ar gael lle bo angen a bod amseroedd profion wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan ddangos nad yw profiadau yn gyson ar draws y sector ac y gallent amrywio yn ôl model busnes a lleoliad.

34. Mae annibyniaeth glinigol yn egwyddor allweddol o'n safonau ond mae rhai cofrestryddion yn teimlo bod hyn yn anodd i'w gynnal o ystyried realiti eu hamgylchedd gwaith prysur. Mae cysylltiad agos rhwng y mater hwn ag arferion trefnu apwyntiadau, yn enwedig lle nad yw cofrestryddion yn teimlo bod ganddynt reolaeth dros y dyddiadur. Ni ellir rhoi'r cyfrifoldeb am reoli'r risgiau hyn ar ysgwyddau cofrestryddion unigol yn unig. Er bod cofrestryddion yn parhau'n atebol am eu penderfyniadau proffesiynol eu hunain, mae gan gyflogwyr a pherchnogion busnesau rôl bwysig i'w chwarae drwy greu amodau gwaith sy'n galluogi ymarfer diogel, gan gynnwys amseroedd apwyntiadau realistig, gan roi annibyniaeth i staff ymestyn amseroedd apwyntiadau gyda chleifion unigol lle bo angen, a llwybrau clir i staff godi pryderon heb ofni canlyniadau negyddol.

35. Rydym yn cydnabod galwadau gan rai rhanddeiliaid ar y Cyngor Optegol Cyffredinol i osod amseroedd sylfaenol ar gyfer profion golwg (neu i weld uchafswm o gleifion bob diwrnod). Rydym wedi ystyried hyn, ond daethom i'r casgliad na fyddai rheolau llym yn briodol o ystyried yr amrywiaeth yn fformat profion golwg, y gwahanol dechnolegau a phrofion a ddefnyddir, ac anghenion amrywiol cleifion.

Key statistics

Roedd 89% o'r cyfranogwyr yn ein harolwg o ganfyddiadau cyhoeddus yn fodlon bod eu hoptometrydd yn caniatáu digon o amser i ymdrin â'u hanghenion yn briodol, sydd wedi cynyddu ychydig ers y don flaenorol (87% yn 2025).

Dywedodd 47% o'r optometryddion fod yr amser a ddyrannwyd iddynt ar gyfer prawf golwg yn annigonol er mwyn darparu gofal diogel i gleifion (48% yn 2025).

Yn ein harolwg o gofrestryddion yn 2024, nodwyd pwysau amser ac amseroedd profion golwg byr fel y rhwystrau mwyaf cyffredin sy'n eu hatal rhag darparu gofal diogel.



Tryloywder ynglŷn â phrisiau a chymhwyster ar gyfer cymorth ariannol dan y GIG

Gall prisiau aneglur a diffyg tryloywder gyfyngu ar fynediad at ofal llygaid ac achosi effaith anghymesur ar y rhai sydd mewn amgylchiadau bregus.

Mae tryloywder ynglŷn â phrisiau yn anghyson ar draws y sector.

Dylid cyfathrebu'n gliriach ynglŷn â chymhwyster ar gyfer cymorth ariannol dan y GIG.

Mae'r rhan fwyaf o'r cleifion yn teimlo bod prisiau sbectols a lensys cyswllt yn glir, ond mae mwy a mwy o gwynion gan ddefnyddwyr yn ymwneud ag arferion prisio.

36. Mae prisiau clir a thryloyw yn bwysig er mwyn cynnal hyder y cyhoedd a lleihau rhwystrau sy'n atal mynediad at ofal llygaid, yn enwedig i bobl mewn amgylchiadau bregus. Mae angen i bobl wybod beth yw pris prawf golwg ac a ydynt yn gymwys ar gyfer cymorth ariannol dan y GIG cyn penderfynu gwneud apwyntiad. Fel arall, mae perygl i hyn achosi iddynt beidio â manteisio ar ofal llygaid, neu oedi cyn cael mynediad at ofal llygaid, gan arwain at oblygiadau posibl ehangach o ran triniaeth fuan ac atal cyflyrau llygaid..

37. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ein hymchwil i ganfyddiadau'r cyhoedd eu bod yn credu bod dod o hyd i bris eu prawf golwg yn hawdd, ac roedd pobl yn credu bod y pris yn glir y tro diwethaf y gwnaethant brynu sbectol neu lensys cyffwrdd. Fodd bynnag, mae rhai'n teimlo bod prisiau sbectols a lensys cyffwrdd yn ddryslyd, yn aneglur neu'n gamarweiniol. Mae materion sy'n codi'n rheolaidd mewn cwynion yn ymwneud â thaliadau annisgwyl, strwythurau prisio aneglur ac eitemau ychwanegol dewisol ddim yn cael eu hegluro'n dda. Roedd hyn yn achosi i rai cleifion brofi gofal llygaid fel trafodiad manwerthu â phwysau sylweddol.

38. Canfu ein hadolygiad o 255 o wefannau busnesau optegol fod tryloywder ar-lein ynglŷn â phris profion golwg a chymhwyster ar gyfer cymorth ariannol dan y GIG yn dameidiog. Yn aml iawn nid oedd yn glir a oedd sganiau tomograffeg cydlyniant optegol (OCT) wedi'u cynnwys yn ffi safonol y prawf golwg ynteu a oedd ffi ar wahân amdanynt. Hyd yn oed pan oedd gwybodaeth yn cael ei darparu am gymorth ariannol y GIG roedd y manylion yn gyfyngedig neu roedd yn anodd cael mynediad atynt. Yn aml iawn nid yw pobl yn gwybod eu bod yn gymwys ar gyfer cymorth ariannol, neu nid ydynt yn siŵr, ac mae hyn yn dangos bod angen codi [ymwybyddiaeth y cyhoedd](#).

39. Roedd busnesau a chofrestryddion unigol yn credu bod cymhwyster ar gyfer cymorth dan y GIG yn cael ei egluro'n glir i gleifion ar wahanol adegau ar eu taith, er enghraifft, o'r adeg roeddent yn trefnu apwyntiad, cyrraedd y dderbynfa, rhag-sgrinio, yn ystod y prawf golwg ac ar yr adeg y rhoddir unrhyw sbectol neu lensys cyffwrdd.

40. Mae cryfhau deddfwriaeth ar gyfer defnyddwyr ac ymyriadau gan y CMA yn ailffurfio disgwyliadau'r cyhoedd ynglŷn â thryloywder prisiau. Bydd cleifion yn disgwyl tryloywder ynglŷn â phrisiau mewn gofal llygaid fwy a mwy, yn union fel y maent yn ei weld mewn gwasanaethau proffesiynol eraill.

Ystadegau allweddol

Dywedodd 74% o'r ymatebwyr yn ein hymchwil i ganfyddiadau'r cyhoedd eu bod yn credu ei bod yn hawdd dod o hyd i bris eu prawf golwg, a dim ond 3% ddywedodd fod hynny'n anodd.

Roedd 38% o'r gwefannau busnes yn ein sampl yn arddangos pris(iau) eu profion golwg.

Roedd prisiau profion golwg yn amrywio o isafswm o £25 i uchafswm o £125 a'r pris cymedrig ar gyfer prawf golwg oedd £50 yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Fe wnaethom adolygu 255 o wefannau busnesau optegol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon o sampl o 324 o endidau busnes wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol. Roedd yr astudiaeth fewnol hynadolygu gwelededd ar-lein prisiau profion golwg a gwybodaeth.



Profion golwg i blant ifanc

Mae profion golwg cynnar yn bwysig, ond mae profion golwg yn cael eu darparu'n anghyfartal ar draws safleoedd/contractwyr.

Mae'n bosibl y bydd rhai optometryddion yn profi plant dan bump oed yn anaml, neu ddim o gwbl, gan arwain at risg o golli sgiliau.

Mae lefelau amrywiol o ymwybyddiaeth o allu optometryddion i brofi plant dan bump, neu i fynd i'r afael â chyflyrau gofal llygaid, a allai achosi rhwystrau sy'n atal mynediad at ofal llygaid

Mae'r rhwystrau sy'n atal mynediad yn amlweddog, yn gymhleth ac yn ymestyn y tu hwnt i ffactorau rheoleiddiol, felly dylai rhanddeiliaid ddod at ei gilydd i drafod atebion.

41. Mae mynediad at brofion golwg a gofal llygaid i blant dan bump yn hanfodol er mwyn sicrhau diagnosis cynnar o gyflyrau llygaid neu broblemau golwg, a allai gael effaith negyddol ar berfformiad addysgol neu ddatblygiad plentyn. Er bod profion golwg y Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol (GOS) am ddim i blant, a bod canllawiau proffesiynol yn nodi'n glir na ddylid gwrthod gofal i blant oherwydd eu hoedran, mae ein dadansoddiad o ddata GOS yn awgrymu bod bylchau yn y ddarpariaeth o brofion golwg i blant dan bump, a bod gweithgaredd profi yn gyfyngedig i nifer cymharol fach o fusnesau/contractwyr.

42. Mae'n bosibl y bydd rhai optometryddion yn profi plant dan bump yn anaml, neu ddim o gwbl, gan achosi risg o golli sgiliau. Gan fod trin plant yn gymhwysedd creiddiol er mwyn cael bod ar y gofrestr, dylai optometryddion gynnal y cymhwysedd hwn er mwyn aros ar y gofrestr, ac ni ddylid ystyried gofal pediatrig fel arbenigedd dewisol.

43. Gallai rhwystrau sy'n atal mynediad gynnwys pwysau masnachol, amser cyfyngedig ar gyfer apwyntiadau, diffyg cyfarpar priodol i oedran, amrywiadau yn hyder a phrofiad ymarferwyr, lleoliad, ac achosion lle mae diffyg goruchwyliaeth neu hyfforddiant yn golygu bod rhieni'n cael eu troi ymaith gan staff blaen tŷ.

44. Mae ymwybyddiaeth o wasanaethau gofal llygaid plant ymhlith rhieni a gofalwyr yn ymddangos yn amrywiol. Gall llawer fod yn ansicr ynglŷn â phryd a ble i ofyn am help ar gyfer pryderon iechyd llygaid plant (gan gynnwys a yw'n bosibl profi plentyn nad yw'n gallu darllen), ac mae'n ymddangos bod profion golwg ymhlith plant ifanc yn seiliedig ar bryderon a nodwyd yn fwy na mynychu'n rheolaidd. Gallai cynyddu ymwybyddiaeth o brofion golwg am ddim a rôl optometryddion helpu i gefnogi mynediad cynharach at ofal a thriniaeth

45. Mae hon yn set amlweddog a chymhleth o faterion, a dim ond rhai ohonynt sydd â goblygiadau rheoleiddiol. Byddai'n fuddiol dod ag ystod eang o randdeiliaid sydd â diddordeb yn y materion hyn at ei gilydd i nodi'r ffyrdd gorau o leihau rhwystrau sy'n atal rhieni a gofalwyr rhag cael mynediad at brofion golwg i blant.

Key statistics

Nid yw 3.2% o ddarparwyr yn Lloegr, 4.6% yng Ngogledd Iwerddon a 4.0% yn yr Alban yn cynnal profion golwg ar gyfer plant dan bump.

Yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, mae'r 10% uchaf o'r darparwyr yn gwneud tua 40% i 55% o'r holl brofion golwg ar gyfer plant dan bump, tra bydd llawer o ddarparwyr yn gwneud nifer fach yn unig o brofion bob blwyddyn.

Roedd yr ymarferydd cyfartalog yng Ngogledd Iwerddon yn gwneud tua 22 o brofion golwg bob blwyddyn (tua un prawf golwg bob dwy neu dair wythnos), tra oedd yr ymarferydd (cymedrig) nodweddiadol yn gwneud 17 o brofion golwg y flwyddyn (sy'n cyfateb i tua un prawf golwg bob tair wythnos).

Yn Lloegr mae'r contractwr cyfartalog yn gwneud tua 105 o brofion golwg bob blwyddyn (tua dau yr wythnos), tra bo'r contractwr (cymedrig) nodweddiadol yn gwneud 43 o brofion golwg (llai nag un yr wythnos).

Yn yr Alban roedd practis cyfartalog yn gwneud tua 72 o brofion golwg plant bob blwyddyn (ychydig yn fwy nag un yr wythnos), tra oedd y practis (cymedrig) nodweddiadol yn gwneud tua 39 o brofion golwg plant bob blwyddyn (tua thri phrawf golwg y mis) .

Yn Lloegr roedd rhwng 1,048 a 1,665 o brofion golwg am bob 10,000 o blant 0-5 oed. Yng Ngogledd Iwerddon, roedd tua 900 o brofion golwg am bob 10,000 o blant 0-5 oed, ac yn yr Alban roedd 1,427 o brofion golwg am bob 10,000 o blant 0-5 oed.

Fe wnaethom gynnal dadansoddiad mewnol o ddata hawliadau GOS a gafwyd o Loegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Nid oedd data o Gymru ar gael gan nad oedd system hawliadau electronig.



Argymhellion

46. Mae cydweithio â phartneriaid yn y sector er mwyn atal niwed yn thema allweddol yn strategaeth gorfforaethol 2025-30. Mae'r argymhellion a nodir isod yn nodi sut y gallai rhanddeiliaid, yn cynnwys cyrff proffesiynol, cyflogwyr ac eraill, helpu i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr adolygiad hwn, ac rydym wedi ymrwymo i ddal i weithio mewn cysylltiad agos â'r sector, ac yn fwyaf arbennig i ddefnyddio ein rôl ymgynnull i helpu eraill i weithio gyda'i gilydd yn effeithiol er mwyn symud ymlaen ag argymhellion perthnasol.

Gwaith y byddwn yn ei wneud

Adolygiad o'r Safonau ar gyfer Busnesau Optegol

47. Byddwn yn adolygu ein Safonau ar gyfer Busnesau Optegol er mwyn sicrhau eu bod yn helpu i gyflawni'r canlyniadau a ganlyn:

- mae cofrestryddion yn gweithredu er lles pennaf pob claf bob amser, â gofal clinigol yn cael blaenoriaeth dros ystyriaethau masnachol;
- registrants have autonomy to exercise professional judgement free from undue commercial influence and appropriately manage conflicts of interest;
- mae gan gofrestryddion annibyniaeth i ddefnyddio eu barn broffesiynol heb ddylanwad masnachol gormodol ac i reoli gwrthdaro rhwng buddiannau yn briodol;
- mae arferion trefnu apwyntiadau a systemau apwyntiadau yn cefnogi gofal diogel i gleifion a llesiant cofrestryddion yn gyson, ac maent yn ddigon hyblyg i reoli apwyntiadau gofal llygaid brys/argyfwng neu sefyllfaoedd lle mae mwy o gleifion na'r disgwyl yn bresennol;
- mae cyflogwyr a pherchnogion busnes yn creu ac yn cynnal amgylchedd sy'n cefnogi iechyd a llesiant gweithwyr, gan gynnwys rheoli straen yn y gweithle, ac yn annog staff i godi pryderon drwy weithdrefnau cwyno mewnol effeithiol a phrosesau codi llais
- gall cleifion gael mynediad rhwydd at wybodaeth glir am gostau a chymhwyster ar gyfer profion golwg am ddim a thalebau cyn trefnu apwyntiad ar gyfer prawf golwg a gwasanaethau cysylltiedig;

- cefnogir cleifion i wneud penderfyniadau deallus am eu hopsiynau triniaeth a phenderfyniadau prynu; ac
- mae cleifion mewn amgylchiadau bregus yn cael y cymorth ychwanegol y mae arnynt ei angen, er enghraifft, mwy o amser neu ddeunydd cyfathrebu wedi'i deilwra.

Ystyried canllawiau atodol

48. Byddwn yn ystyried cynhyrchu canllawiau atodol os bydd angen yn y dyfodol, gan gynnwys er mwyn cefnogi unrhyw safonau newydd neu wedi'u cryfhau

49. Byddwn yn adolygu'r arferion gorau gan reoleiddwyr eraill oddi mewn ac oddi allan i ofal iechyd er mwyn nodi ffyrdd o gryfhau cymorth i gofrestryddion godi llais.

Codi ymwybyddiaeth o'r safonau a'r canllawiau presennol

50. Mae ein Safonau Ymarfer ar gyfer [Optometryddion ac Optegwyr](#) Cyflenwi a chanllawiau ar godi llais a gofalu am gleifion mewn [amgylchiadau bregus](#) eisoes yn amlinellu ein disgwyliadau mewn cysylltiad â rheoli gwrthdaro rhwng buddiannau, sicrhau nad yw cydymffurfio â thargedau a chymhellion yn rhoi diogelwch cleifion yn y fantol, a chefnogaeth i grwpiau o gleifion sy'n fwy agored i niwed. Byddwn yn gweithio ar y cyd â chyrff proffesiynol/ cynrychioladol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r rhain

Adolygiad o ofynion addysg a hyfforddiant

51. Byddwn yn adolygu sut y gall y system addysg a hyfforddiant sicrhau bod cofrestryddion sydd newydd gymhwyso yn cael eu paratoi i reoli pwysau masnachol tra'n cynnal gofal diogel i gleifion

52. Byddwn hefyd yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector addysg er mwyn ystyried sut y gellir cefnogi myfyrwyr tra byddant ar leoliad yn ystod eu cymhwysiad.

Profion golwg i blant ifanc

53. Drwy weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Teesside a Phrifysgol Aston,

byddwn yn cynnal sesiwn bord gron i randdeiliaid er mwyn trafod y materion sydd yn yr adolygiad hwn.

Gwella tystiolaeth, monitro a sicrwydd

54. Byddwn yn defnyddio penderfyniadau'r adolygiad annibynnol o addasrwydd i ymarfer rydym yn ei gomisiynu'n barod i ddarparu sicrwydd ynglŷn ag ansawdd y penderfyniadau a wneir mewn achosion yn ymwneud â chofrestryddion busnes a phractisau masnachol. Byddwn hefyd yn cryfhau ein prosesau casglu data yn y maes hwn er mwyn cefnogi gwaith monitro a nodi patrymau.

55. Byddwn yn monitro ac yn adolygu pryderon yn ymwneud ag atgyfeiriadau amhriodol at wasanaethau megis llawdriniaethau cataract a llawdriniaethau plygiant yn gyson. Byddwn yn ystyried gweithgaredd pellach os bydd tystiolaeth gynyddol o risg yn y maes hwn.

56. Fel rhan o'n gweithgareddau ymchwil, byddwn yn parhau i gofnodi a monitro tueddiadau drwy ein harolwg o gofrestryddion a ffynonellau data eraill. Byddwn yn canolbwyntio ar grwpiau megis cofrestryddion sydd newydd gymhwyso, a allai fod yn fwy tebygol o brofi anawsterau wrth geisio rhoi blaenoriaeth i ofal cleifion dros bwysau masnachol, ac yn fwy cyffredinol yn wynebu heriau wrth bontio i ymarfer clinigol amser llawn.

Argymhellion ar gyfer y sector ehangach

Argymhellion ar gyfer y cyrff proffesiynol/cynrychioladol

Cynorthwyo cofrestryddion unigol a chofrestryddion busnes i reoli pwysau masnachol a chodi pryderon

57. Dylai'r cyrff proffesiynol/cynrychioladol ystyried adolygu a diweddarau'r canllawiau, y cyngor a'r cymorth y maent yn ei roi mewn cysylltiad â'r materion a nodwyd yn yr adolygiad hwn. Rydym yn nodi bod y Coleg Optometryddion wedi ymgynghori ar ei Ganllawiau ar gyfer Ymarfer Proffesiynol yn ddiweddar ac yn aros am ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw

58. Yn eu rôl fel darparwyr DPP, dylai'r cyrff proffesiynol/cynrychioladol ddefnyddio'r datblygiad proffesiynol y maent yn ei ddarparu i gynorthwyo cofrestryddion i reoli'r materion a nodwyd yn yr adolygiad hwn.

Argymhellion ar gyfer busnesau optegol

Sicrhau bod arferion masnachol yn cefnogi gofal cleifion diogel a moesegol

59. Dylai busnesau optegol adolygu eu strwythurau targedau gweithwyr a chymhellion, arferion trefnu apwyntiadau a threfniadau profion golwg er mwyn sicrhau eu bod yn meithrin y diwylliant iawn, yn cydymffurfio â'n safonau ac yn creu ffocws clir ar ddiogelwch cleifion, profiad cleifion a llesiant cofrestryddion.

Cryfhau trefniadau goruchwyllo a sicrwydd

60. Dylai busnesau optegol gasglu a monitro data mewnol er mwyn nodi risgiau posibl, allanolion a phryderon sy'n dod i'r amlwg, ac ymarfer goruchwyliaeth ac archwiliad priodol o feysydd megis amseroedd profion golwg, strwythurau targedau a chymhellion, ac arferion atgyfeirio. Dylid ymchwilio i unrhyw bryderon yn fuan ac yn briodol, gan gynnwys atgyfeiriadau i'r Cyngor Optegol Cyffredinol yn ôl y galw.

Creu diwylliant lle gall staff godi pryderon a chael mynediad at gymorth

61. Dylai busnesau optegol adolygu eu trefniadau codi llais yn erbyn canllawiau'r Cyngor Optegol Cyffredinol a sicrhau bod y trefniadau'n ymdrin â phryderon ynglŷn ag arferion masnachol.

62. Dylai busnesau optegol sicrhau bod cymorth priodol ar gael i weithwyr sy'n profi anawsterau yn gysylltiedig â'r amgylchedd masnachol y mae'r busnes yn gweithredu ynddo.

Ystyried anghenion cleifion sydd angen cymorth ychwanegol

63. Dylai busnesau optegol ystyried a oes angen mesurau ychwanegol, megis gwell prosesau brysennu neu ragsgrinio, er mwyn nodi cleifion a allai fod angen apwyntiadau hwy neu gymorth ychwanegol, gan gynnwys cleifion mewn amgylchiadau bregus.

Argymhellion ar gyfer comisiynwyr a chyrff y GIG

64. Dylai comisiynwyr ystyried yr effaith y gallai contractau presennol y Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol fod yn ei gael ar ddarparu gofal llygaid a llesiant y gweithlu.

65. Dylai comisiynwyr gynnal a dadansoddi data ar nifer y profion golwg ar gyfer plant dan bump a rhoi sylw i bryderon gyda chontractwyr fel y bo'n briodol

66. Dylai comisiynwyr a chyrff y GIG geisio codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynglŷn â chymhwyster ar gyfer profion golwg am ddim a chymorth ariannol arall tuag at gostau gofal llygaid.



Floor 29, One Canada Square
Canary Wharf
London E14 5AA
+44 (0) 20 7580 3898
www.optical.org
Registered charity 1150137

General Optical Council

